




ATKINS

Adolygiad Cynllun Rheoli Traethlin (CRhT2) Môr Hafren

Mae Môr Hafren yn amgylchedd cymhleth ac anodd ei reoli; yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol. Mae gan y forlin lawer o ddefnyddiau, gan gynnwys porthladdoedd, trefi a datblygiadau diwydiannol helaeth ochr yn ochr ag ardaloedd pwysig o safbwynt amaethyddol a chadwraeth. Mae deg o awdurdodau lleol a dwy weinyddiaeth genedlaethol yn rhannu'r draethlin.

Bydd CRhT2 yn darparu asesiad ar raddfa fawr o'r peryglon sy'n gysylltiedig â phrosesau arfordirol. Bydd yr asesiad hwn yn rhoi'r dystiolaeth sy'n sail ar gyfer datblygu fframweithiau polisi presennol ac yn y tymor hir. Cynllunnir y polisiâu sy'n deillio o hyn i leihau'r peryglon i bobl, datblygiadau ac amgylcheddau hanesyddol a naturiol, mewn modd cynaliadwy.



Flat Holm, the Severn Estuary

Cwblhawyd CRhT cyntaf Môr Hafren yn 2000. Ers ei gyhoeddi, gwnaed cynnydd sylweddol o ran deall a mapio'r prosesau arfordirol o amgylch y 6,000 cilometr o arfordir yng Nghymru a Lloegr. Mae bellach yn bryd diweddarau'r CRhT, i roi ystyriaeth i'r wybodaeth newydd hon a chanllawiau newydd, er mwyn rheoli ein harfordiroedd yn well.

Roedd y CRhT cyntaf yn ymdrin â chyfnod o 50 mlynedd. Bydd CRhT2 yn ystyried y modd y rheolir y forlin dros gyfnod o gan mlynedd. Mae'r dull newydd hwn yn angenrheidiol i gynllunio ar gyfer dyfodol cynaliadwy i Fôr Hafren yn y tymor hir.

Mae'r CRhT2 yn ymdrin â'r forlin o Howe Bridge ger Caerloyw i Drwyn Larnog ar arfordir Cymru, a hyd at Anchor Head, i'r gogledd o Weston Bay, ar arfordir Lloegr (gweler y ffigur dros y dudalen).

Y Forlin

Dyma ardal sy'n enwog am fod ag un o'r rhychwantau llanwol mwyaf yn y byd. Dylanwad y môr sydd bwysicaf yn rhannau isaf Môr Hafren, gyda dylanwad yr afonydd yn fwy yn union i'r gogledd o Sharpness.

Mae effeithiau'r môr a'r afonydd ym Môr Hafren yn creu peryglon llifogydd ac erydu sy'n achosi problemau i ddatblygiadau ar hyd y draethlin a'r amgylchedd. Mae angen dulliau rheoli newydd a chreadigol i reoli'r peryglon hyn, yn arbennig oherwydd y bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar amllder a difrifoldeb llifogydd yn ogystal â chodi lefel y môr.

Nod polisiâu rheoli yw sicrhau cydbwysedd rhwng yr awydd i warchod eiddo a bywoliaethau ar y naill law, a chynnal ffurf yr arfordir naturiol a'r cynefinoedd a'r tirluniau ar y llaw arall.

Strategaeth Rheoli Bygythiad Llifogydd (SRhBLI) Môr Hafren

Mae cynhyrchu CRhT2 yn cyd-fynd â chreu Strategaeth Rheoli Bygythiad Llifogydd (SRhBLI) Môr Hafren. Mae'r Strategaeth yn edrych yn fanylach ar y modd y rheolir amddiffynfeydd rhag llifogydd yn y dyfodol, a sut y gweithredir rhai o'r polisiâu perygl llifogydd a argymhellir yn y CRhT.

Gan y bydd CRhT2 yn llywio cwrpas a chyfeiriad y Strategaeth RhBLI, mae'n bwysig eu bod yn gweithio gyda'i gilydd.

Sut y gallaf innau gymryd rhan?

Mae barn a safbwyntiau rhanddeiliaid yn bwysig wrth ddatblygu CRhT effeithiol. Rydym yn awyddus i glywed gan bawb sydd â diddordeb yn gynnwys yn y broses.

Pethau i'w hystyried:

- *Pa nodweddion arfordirol sy'n dod â budd i'r gymuned, yr economi neu'r amgylchedd?*
- *A wyddoch chi am unrhyw ddatblygiadau posibl yn y dyfodol ar yr arfordir a fyddai'n effeithio ar benderfyniadau ynglyn â sut y rheolir y forlin?*

Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan, neu mewn cael rhagor o wybodaeth, ymwelwch â: www.severnestuary.net/secg

Pryd y cwblheir y cynllun?

Dechreuodd gwaith ar Adolygiad CRhT Môr Hafren ym mis Hydref 2008. Bydd cyfle i gyfrannu tuag at gynhyrchu'r CRhT gydol 2009. Trefnir ymgynghoriad cyhoeddus dros 3 mis ar gyfer diwedd 2009.

Disgwylir i'r ddogfen gyhoeddedig fod ar gael yn Ebrill 2010.



Casnewydd ac Wysg

Llifa'r Afon Wysg trwy dir sydd wedi ei ddatblygu'n helaeth, a mannau agored gydag amddiffyniad rhag llifogydd. Mae llawer o'r ddinas mewn parth perygl llifogydd a warchodir yn helaeth gan amddiffynfeydd rhag llifogydd.

Caerdydd

Mae datblygiad diwydiannol sylweddol, gan gynnwys Morglawdd Bae Caerdydd, ochr yn ochr â dynodiadau cadwraeth statudol rhyngwladol a chenedlaethol a safleoedd o ddi-ddordeb hanesyddol, yn creu cylchfa arfordirol gymhleth i'w rheoli'n gynaliadwy. Mae erydu sylweddol ar Draethellau Caerdydd i'r dwyrain o'r porthladd.



Penarth

Mae hindreulio ac erydu wynebau'r clogwyni i'r gogledd a'r de o Benarth yn peri pryder mawr oherwydd y bygythiad i eiddo preswyl. Mae bygythiad llifogydd i eiddo masnachol a seilwaith ar Rodfa Penarth hefyd yn broblem.




Cas-gwent a'r Afon Gwy

Dynodir dyffryn Afon Gwy yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, ac mae'n cynnwys casgliad o Safleoedd o Ddi-ddordeb Gwyddonol Arbennig.

Gwastadeddau Gwent

Mae Gwastadeddau Gwent yn ardal helaeth o dir isel sydd o bwys cenedlaethol oherwydd ei bywyd gwyllt a'i harcheoleg. Cydnabyddir nifer o safleoedd yng Ngwastadeddau Gwent yn Safleoedd o Ddi-ddordeb Gwyddonol Arbennig.



- Ffin arfordirol allanol y CRhT
- Prif ffyrdd
- Ymestyniad mewndirol y CRhT:- 1km i mewn i'r tir neu hyd eithaf y tir isel
- Prif ardaloedd trefol

Caerloyw

Gwarchodir ardaloedd helaeth o dir isel o boptu Môr Hafren yng Nghaerloyw gan amddiffynfeydd.

Beachley i Sharpness

Gwarchodir tiroedd amaethyddol ac aneddiadau bychain gan rwydwaith o argloddiau llifogydd.



Croesfannau Hafren

Yma cyfyngir yr aber rhwng pentiroedd Sudbrook a Redwick/New Passage, a Beachley a Phenrhyn Awstin. Mae'r tir o boptu'r afon yn isel, sy'n arwain at broblemau rheoli amddiffynfeydd a pherygl llifogydd.

Bryste a'r Afon Avon

Lleolir datblygiadau diwydiannol sylweddol a phorthladd Bryste ar yr Afon Avon, un o isafonydd Môr Hafren. Yn ychwanegol, mae'r datblygiadau seilwaith a phreswyl pwysig ym Mryste yn nodweddion allweddol a ystyrir gan CRhT2.



Portishead a Clevedon

Mae tir amaethyddol ac unedau preswyl wedi eu gwarchod yn dda gan y clogwyni creigiadau celyd, sy'n gallu gwrthsefyll erydiad.